Libraries/Llyfrgelloedd

JOIN YMUNO LEARN
DYSGU BOOKS LLYFR
AR-LEIN ONLINE
INFORMATION EICH
GWYBODAETH YOUR
CHILDREN ADULTS
LLYFRGELLOEDD
OEDOLION PLANT
NEWPORT LIBRARIES

Cyngor Dinas Casnewyd

Strategaeth Llyfrgelloedd 2017-2020

Newport City Council
Cyngor Dinas Casnewydd

Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r weledigaeth ac yn diffinio blaenoriaethau'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yng Nghasnewydd dros y tair blynedd nesaf.

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd yn adnoddau cymunedol gwerthfawr a all gyfoethogi bywydau pobl trwy helpu i wella llythrennedd; cynorthwyo sgiliau a dysgu; hyrwyddo cynhwysiant digidol a chael effaith bositif ar iechyd a lles.

Fodd bynnag, mae gofynion cwsmeriaid llyfrgelloedd ledled y DU yn newid, a hynny ar adeg o gyfyngu ariannol. Er mwyn bodloni'r her hon, rhaid i Wasanaeth Llyfrgelloedd Casnewydd allu addasu i amgylchiadau'n newid ac amlygu cyfleoedd posibl, gan gynnal y gwasanaethau hynny sy'n cael eu gwerthfawrogi yn ein cymunedau, a cheisio eu gwella.

Bydd y strategaeth hon yn amlinellu'r fframwaith cychwynnol ar gyfer sut gall y gwasanaeth ymateb i'r heriau parhaus rydym yn eu hwynebu, a sicrhau bod gwasanaethau llyfrgelloedd Casnewydd yn gynaliadwy ac yn gallu bodloni anghenion trigolion y ddinas yn y dyfodol.

Y weledigaeth am y gwasanaeth llyfrgelloedd

Gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysol a chyfoes o ansawdd uchel sy'n ysbrydoli pobl Casnewydd i wireddu eu llawn botensial.

Cefndir a chyd-destun

Mae'r strategaeth hon wedi cael ei llywio gan y fframwaith statudol y mae gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn gweithredu ynddi, yn ogystal â nifer o strategaethau lleol a chenedlaethol.

Statudol

Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964

Mae Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 yn gosod dyletswydd statudol ar holl awdurdodau lleol y DU i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sydd eisiau eu defnyddio.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015 yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn meddwl am y tymor hir, yn gweithio'n well gyda chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiol.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn gosod 7 nod llesiant:

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Yn amlwg, mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cyfrannu at nifer o'r nodau hyn, trwy gynorthwyo addysg a dysgu gydol oes; hyrwyddo iechyd a lles; gwella llythrennedd digidol; a darparu mynediad at ddiwylliant a'r Gymraeg yn rhai o'r cymunedau o amddifadedd mwyaf yng Nghasnewydd ac yng Nghymru.

Strategaethau lleol

‘Sefyll yn Gadarn dros Gasnewydd’ Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd 2012-17

Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn darparu fframwaith strategol ar gyfer darparu’r holl wasanaethau. Mae gan y cynllun 5 brif thema a chanlyniadau, sy’n cael eu hadlewyrchu ym mlaenoriaethau’r Gwasanaeth Llyfrgelloedd:

Dinas ofalgar

- Pobl yn byw mewn cymunedau cynaliadwy
- Pobl yn byw bywydau annibynnol ac yn cael cymorth pan fo’n briodol

Dinas decach

- Penderfyniadau’n cael eu profi a’u monitro er mwyn sicrhau tegwch
- Y cyngor yn gwneud y defnydd gorau posibl o’i adnoddau

Dinas sy’n dysgu ac yn gweithio

- Gwella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc
- Oedolion yng Nghasnewydd yn llwyddiannus ac yn gwireddu eu potensial
- Yr economi leol yn gref ac yn hyderus

Dinas wyrddach ac iachach

- Gwneud y ddinas yn fwy deniadol
- Hybu cynaliadwyedd amgylcheddol
- Pobl yn byw bywydau iachach

Dinas ddiogelach

- Pobl yng Nghasnewydd yn byw mewn cymuned ddiogel a chynhwysol
- Casnewydd yn lle bywiog a chroesawgar i ymweld ag ef a’i fwynhau

Strategaethau cenedlaethol

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

Ers 2002, mae Gwasanaethau Llyfrgelloedd yng Nghymru wedi cyflwyno datganiadau blynyddol yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Yna, caiff y datganiadau hyn eu defnyddio gan un o Weinidogion Cymru er mwyn goruchwylio ac asesu gorfodaeth pob awdurdod lleol i gyflwyno gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus dan ddeddf 1964. Hyd yma, mae pum fframwaith wedi bod, a phob un yn datblygu er mwyn adlewyrchu anghenion a disgwyliadau cyfnewidiol defnyddwyr y llyfrgelloedd. Cafodd y fframwaith diweddaraf ei chyflwyno yn 2014 a bydd yn weithredol nes 2017.

Mae’r bumed fframwaith yn gofyn i Wasanaethau Llyfrgelloedd Cymru adrodd ar y 18 hawl graidd a’r 16 dangosydd ansawdd. Mae Gwasanaethau Llyfrgelloedd yn cyfrannu at ystod o ganlyniadau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys llythrennedd, sgiliau a dysgu, cynhwysiant digidol, taclo tlodi ac iechyd a lles. Felly, mae’r fframwaith ansawdd newydd wedi cael ei chreu o gwmpas pedair agwedd graidd o’r gwasanaeth:

- Cwsmeriaid a Chymunedau
- Mynediad i Bawb
- Dysgu am Oes
- Arweinyddiaeth a Datblygu

Yn 2014/15 bodlonodd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Casnewydd 16 o'r 18 hawl graidd yn llawn, rhannol fodloni 1 a methu â bodloni 1, o'r 7 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, bodlonodd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Casnewydd 4 yn llawn a 3 yn rhannol.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad blynyddol diweddaraf sy'n asesu perfformiad Gwasanaeth Llyfrgelloedd Casnewydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr – y Cynigion Cyffredinol

Mae'r Cynigion Cyffredinol yn fframwaith strategol a ddatblygwyd gan Gymdeithas y Prif Lyfrgellwyr er mwyn darparu gweledigaeth gydlynus a chadarnhaol ar gyfer dyfodol llyfrgelloedd cyhoeddus yn y DU. Mae'r Cynigion Cyffredinol yn cynrychioli'r gwasanaethau craidd y mae defnyddwyr a rhanddeiliaid y llyfrgelloedd yn eu gweld fel rhan annatod o wasanaeth llyfrgell yr 21ain ganrif, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau llyfrgelloedd yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gallu bodloni disgwyliadau cyfnewidiol y cwsmeriaid.

Pum elfen y Cynigion Cyffredinol yw:

- Y Cynnig Darllen
- Y Cynnig Digidol
- Y Cynnig Iechyd a Lles
- Y Cynnig Gwybodaeth
- Y Cynnig Dysgu

Gwasanaeth Llyfrgelloedd Casnewydd

Ar hyn o bryd, mae gan Wasanaeth Llyfrgelloedd Casnewydd 9 pwynt gwasanaeth ledled y ddinas. Yn dilyn adolygiad o'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn 2015, rhannwyd y pwyntiau gwasanaeth hyn i 3 band:

Y Llyfrgell Ganolog

Mae'r llyfrgell ganolog wedi ei lleoli mewn adeilad wedi ei rannu gan Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd, ac mae ar agor 41 awr yr wythnos. Yn ogystal â dal 54,000 o deitlau i'w benthyg, mae gan y Llyfrgell Ganolog storfa wrth gefn o 24,000 o eitemau. Y Llyfrgell Ganolog yw cartref y casgliad astudiaethau lleol sy'n cynnwys dros 50,000 o eitemau, gan gynnwys deunyddiau print, mapiau, ffotograffau a phapurau newydd sy'n ymwneud â hanes, daearyddiaeth a llenyddiaeth Casnewydd a hanes hir Sir Fynwy.

Tair Llyfrgell – Betws; Ringland; Tŷ Du

Mae'r tair llyfrgell ar agor am leiafswm o 36 awr yr wythnos, ac maent yn gweithredu fel llyfrgelloedd ar eu pen eu hunain. Yn ogystal â benthyca stoc, mae gan bob llyfrgell leiafswm o bedwar cyfrifiadur cyhoeddus ac maent yn cynnwys digwyddiadau a gweithgareddau rheolaidd, gan gynnwys Clybiau Stori a Dydd Gwener Digidol, a sesiynau galw heibio TG sy'n cael eu cynorthwyo gan wirfoddolwyr.

Pum gwasanaeth mewn lleoliadau wedi'u rhannu – Caerllion; Malpas; Pillgwenlli; St Julian's; Tŷ Tredegar

Mae'r rhain ar agor am 20 awr bob wythnos, ac maent wedi eu lleoli mewn adeiladau sy'n cael eu rhannu gan sefydliadau partner. Mae Pillgwenlli a St Julian's yn gweithredu o fewn Canolfannau Dysgu Cymunedol; mae Tŷ Tredegar wedi ei leoli ar dir eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a symudodd Caerllion i Neuadd y Dref, Caerllion yn 2015. Mae'r holl lyfrgelloedd hyn yn rhoi mynediad i wasanaethau benthyca craidd, ac mae lleiafswm o 3 cyfrifiadur ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd. Cynhelir digwyddiadau a gweithgareddau yn y llyfrgelloedd hyn trwy gydol y flwyddyn.

Darperir Wi-Fi ym mhob un o Lyfrgelloedd Casnewydd.

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Casnewydd hefyd yn darparu 3 gwasanaeth sy'n cyd-fynd â'r llyfrgelloedd sefydlog hyn:

1. Mae'r gwasanaeth i bobl gaeth i'w tai yn darparu gwasanaeth i drigolion nad ydynt yn gallu ymweld â llyfrgell. Caiff ei reoli o bedwar o'n llyfrgelloedd, ac mae gwirfoddolwyr yn dosbarthu llyfrau sydd wedi eu dewis gan staff y llyfrgell bob mis;
2. Mae Book Express yn wasanaeth post unigryw lle gall drigolion Casnewydd archebu hyd at 50 llyfr ar-lein bob blwyddyn, sy'n cael eu dosbarthu iddynt trwy'r post;
3. Mae gwasanaeth llyfrgell 24 awr 7 diwrnod yr wythnos ar gael trwy ein porth ar-lein penodedig, sef LION – Llyfrgell Ar-lein yng Nghasnewydd. Ar LION, gall aelodau'r llyfrgell reoli eu cyfrif, chwilio yn ein catalog, adnewyddu a gofyn am deitlau, a chael mynediad at ystod o adnoddau gwybodaeth ar-lein.

Ffeithiau a Ffigyrau

Cyfartaledd Gwariant Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol Cymru v Gwariant Llyfrgelloedd Cyngor Dinas Casnewydd



Yn 2016/17 y gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yw £887,631.

Yn 2015/16 gwelodd y Gwasanaeth Llyfrgelloedd:

- 446,929 o ymweliadau
- 424,073 o lyfrau ac adnoddau eraill wedi cael eu dosbarthu yn ein llyfrgelloedd
- 4,454 o e-lyfrau wedi'u dosbarthu
- 40,652 awr o ddefnydd o gyfrifiaduron cyhoeddus
- 39,300 o aelodau cofrestredig
- Benthycodd 16,600 o bobl o leiaf un eitem o'n llyfrgelloedd

Ym mis Mawrth 2016, cynhaliwyd arolwg i gwsmeriaid gan Lyfrgelloedd Casnewydd, a derbyniom yr adborth hwn:-

- Y tri phrif reswm dros ymweld â'r llyfrgell oedd:
    - Benthyg neu ddychwelyd llyfr – 88%
    - Gofyn i aelod o staff am help/gwybodaeth – 42%
    - Defnyddio cyfrifiadur – 34%
- Canran yr ymatebwyr oedd yn meddwl bod y llyfrau yn y llyfrgell yn Dda Iawn neu yn Dda oedd 89%
- Canran yr ymatebwyr a nododd fod y gwasanaeth yn Dda Iawn neu yn Dda ar y cyfan oedd 92%
- Canran yr ymatebwyr a nododd fod y cyfrifiaduron yn y llyfrgell yn Dda iawn neu yn Dda oedd 76%

Heriau'r dyfodol

Rhaid i Strategaeth y Llyfrgell fod yn ddogfen sy'n adlewyrchu'r amgylchiadau gweithredu'r gwasanaeth ar hyn o bryd, yn ogystal â cheisio amlygu heriau ar gyfer y dyfodol a sut gall y gwasanaeth ymateb. Er mwyn cyflawni hyn, gwneir y rhagdybiaethau canlynol ynghylch sut fydd anghenion ein defnyddwyr yn datblygu, a pha ffactorau allanol fydd yn dylanwadu ar y gwasanaeth dros y ddwy flynedd nesaf.

- Rydym yn rhagweld y bydd Llywodraeth Leol yn parhau i wynebu setliadau ariannol heriol tan o leiaf 2020. Felly, byddwn yn parhau i weithredu â chyllidebau cyfyngedig dros y cyfnod hwnnw.
- Bydd angen i wasanaethau llyfrgelloedd barhau i arloesi a dod o hyd i ffyrdd newydd o sicrhau eu bod yn gweithredu mewn ffordd effeithlon ac yn darparu gwerth am arian. Bydd hyn yn cynnwys chwilio am ragor o gyfleoedd i weithio ar y cyd mewn mentrau fel y consortiwm prynu llyfrau Cymru gyfan a System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru gyfan.
- Hefyd, bydd angen i wasanaethau llyfrgelloedd weithio ar y cyd â'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y cymunedau hynny. Trwy annog cynhwysiant cymunedol, bydd llyfrgelloedd mewn sefyllfa dda i amlygu cyfleoedd i gymunedau lleol gynorthwyo'r ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol.
- Bydd rôl gwirfoddolwyr wrth ddarparu gwasanaethau sy'n ychwanegu gwerth yn cynyddu.
- Bydd disgwyliadau'r cwsmeriaid, yn enwedig gyda'r ddarpariaeth TG, yn parhau i newid a herio model traddodiadol cyflwyno gwasanaethau llyfrgell.
- Bydd disgwyl i lyfrgelloedd allu cynnig presenoldeb ar-lein bob awr o'r dydd, a gallu darparu dulliau mynediad amrywiol i wasanaethau.
- Disgwylir y bydd y galw am wasanaethau digidol a gynorthwyir yn parhau i dyfu wrth i wasanaethau'r llywodraeth newid i ddigidol yn ddiofyn. Mae llyfrgelloedd yn darparu 'rhwyd achub' i nifer o'r boblogaeth, a bydd yn parhau i fod yn ffordd ddefnyddiol o gynorthwyo defnyddwyr i gael mynediad at rai o wasanaethau hanfodol bywyd, fel budd-daliadau; chwilio am swyddi; a gwybodaeth iechyd a lles.
- Bydd angen i weithlu llyfrgelloedd barhau i ddatblygu eu sgiliau digidol er mwyn gallu helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein. Bydd ceisio dilyn y newidiadau technolegol yn her i wasanaethau llyfrgelloedd.
- Bydd newidiadau i'r diwydiant cyhoeddi a datblygiad parhaus e-lyfrau yn effeithio ar ddarpariaeth y llyfrgelloedd. Oni bai y gellir dod i gytundeb â gwerthwyr, bydd y ddarpariaeth e-lyfrau mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yn parhau i gael ei weld yn ddiffygiol.
- Bydd angen i lyfrgelloedd weithio gyda phartneriaid yn fwy aml er mwyn ymestyn cyrhaeddiad y llyfrgell a bodloni anghenion y gymuned.

Nodau strategol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Rydym wedi amlygu 6 nod strategol. Gyda'i gilydd, bydd y nodau hyn yn sicrhau bod ein llyfrgelloedd yn gallu cyflwyno gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon sy'n gallu addasu i anghenion cyfnewidiol y cwsmeriaid, gan gyflwyno amcanion lleol a chenedlaethol.

Nod Strategol Un:

Annog darllen a chefnogi llythrennedd

Byddwn yn parhau i osod cefnogi darllen a llythrennedd wrth wraidd ein cynnig gwasanaeth. Yn ein harolwg i gwsmeriaid ym mis Mawrth 2016, roedd 76% o ddefnyddwyr yn ymweld â llyfrgelloedd er mwyn benthyg neu ddychwelyd llyfr. Byddwn yn parhau i ddarparu adnoddau priodol a staff arbenigol er mwyn cynorthwyo defnyddwyr yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

Cefnogi llythrennedd plant

- Byddwn yn parhau i ymrwymo i hyrwyddo darllen er mwyn pleser a chefnogi llythrennedd ymysg plant yng Nghasnewydd.

Mae tystiolaeth gan yr Adran Addysg yn dangos bod darllen er mwyn pleser yn tyfu hyder, a bod perthynas gadarnhaol rhwng darllen er mwyn pleser a chyrhaeddiad mewn ysgolion.

- Byddwn yn parhau i hyrwyddo darllen ymysg plant meithrin trwy barhau i gynnal ein sesiynau clwb stori, cydlynu'r cynllun Bookstart cenedlaethol yng Nghasnewydd ac ymgysylltu â'r ymgyrch 'Darllena. Datblyga.' ac ymgyrchoedd cenedlaethol priodol eraill.
- Byddwn yn parhau i gynnal y cynllun Pob Plentyn yn Aelod o'r Llyfrgell mewn partneriaeth ag ysgolion Casnewydd er mwyn sicrhau bod pob plentyn ysgol yng Nghasnewydd wedi eu cofrestru â llyfrgell.
- Ein nod yw cynyddu nifer y plant sy'n gwneud Sialens Ddarllen yr Haf yng Nghasnewydd trwy ddefnyddio rhagor o wirfoddolwyr Hac Darllen er mwyn hyrwyddo'r fenter a helpu yn y digwyddiadau a'r gweithgareddau.

Darllen Ymlaen

Mae Darllen Ymlaen (oedd yn cael ei alw'n Her Chwe Llyfr cyn hynny) yn fenter genedlaethol sy'n cynorthwyo oedolion a phobl ifanc i ddarllen mwy trwy ddewis chwe pheth i ddarllen, eu graddio a'u cofnodi.

- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Dechrau'n Deg, er mwyn hyrwyddo'r cynllun ac annog pobl i gymryd rhan, gan fod 'popeth yn newid pan rydym yn darllen'.

Digwyddiadau datblygu darllenwyr

- Byddwn yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn yr holl lyfrgelloedd i blant ac oedolion, er mwyn hyrwyddo darllen. Bydd y gweithgareddau hyn yn cynnwys ymweliadau awduron, grwpiau darllen a chynnal grwpiau darllen ar y cyd yn y Llyfrgell Ganolog.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn cynyddu cyfranogiad ac effaith cymaint â phosibl.

Nod strategol dau:
Darparu gwasanaethau digidol a chynorthwyo cynhwysiant digidol

Creu cymaint o gyfleoedd technoleg ddigidol â phosibl

- Rydym yn defnyddio'r cyfleoedd a gynigir gan dwf technoleg ddigidol er mwyn gwella cyflwyno gwasanaethau lle bo'n ymarferol.

Ar ôl cyflwyno Adnabod Amledd Radio a hunanwasanaethu yn y Llyfrgell Ganolog a Llyfrgell Caerllion, byddwn yn ystyried defnyddio'r dechnoleg hon yn ein safleoedd eraill gyda'r bwriad o gyflwyno'r dechnoleg i un safle bob blwyddyn.

- Byddwn yn archwilio'r cyfleoedd y mae Wi-Fi cyflym yn ei gyflwyno ar ein safleoedd, gan gynnwys mabwysiadu cyfleusterau argraffu Wi-Fi a benthyca llechi cyfrifiadurol ac e-ddarllenwyr.

Bydd angen i sgiliau digidol staff llyfrgelloedd ddilyn gofynion cyfnewidiol ein defnyddwyr ac amgylchedd digidol cyfnewidiol, felly bydd pwyslais llawer cryfach ar sicrhau bod holl staff y llyfrgelloedd yn hyderus ac yn gallu gweithio mewn amgylchedd o'r fath.

Digidol â chymorth a chynhwysiant digidol

Wrth i ragor o wasanaethau llywodraeth droi yn ddigidol, bydd y gwasanaeth llyfrgell yn parhau i fod â rôl bwysig wrth helpu pobl i fynd ar-lein a bod yn hyderus wrth ddefnyddio adnoddau digidol.

- Byddwn yn sicrhau bod yr holl staff yn hyderus yn rhoi lefel briodol o gymorth i ddefnyddwyr y llyfrgelloedd.

Hyd yn oed gyda mwy o hyfforddiant i staff, bydd hyn yn her i'w reoli, gan y bydd yn debygol o osod pwysau sylweddol ar adnoddau staff, oherwydd efallai na fydd modd bodloni disgwyliadau'r defnyddwyr am gymorth un i un.

- Byddwn yn parhau i gynnig rhaglen wersi syml gan staff, gweithio gyda sefydliadau partner a defnyddio gwirfoddolwyr er mwyn bodloni'r her hon.

Gwasanaethau llyfrgell ar-lein

Mae llyfrgelloedd Casnewydd eisoes yn darparu gwasanaeth llyfrgell ar-lein 24/7 trwy wefan Llyfrgell Ar-lein yng Nghasnewydd (LION). Mae hyn yn cynnwys mynediad at ystod o adnoddau gwybodaeth ar-lein, ac mae'n galluogi aelodau llyfrgelloedd i reoli eu cyfrif, adnewyddu a gofyn am deitlau a lawrlwytho e-lyfrau, teitlau sain ac e-gylchgronau.

- Er mwyn bodloni cynnydd disgwyliedig yn nefnydd y gwasanaeth, byddwn yn parhau i ddatblygu LION fel y prif ganolfan ar gyfer ein gwasanaethau ar-lein. Byddwn yn ehangu cynnwys y wefan trwy ddechrau rhaglen ddigideiddio eitemau o'n casgliad astudiaethau lleol.

Wrth i ddefnydd technoleg barhau i ddatblygu a chynnig cyfleoedd i gwsmeriaid ymgysylltu â'n llyfrgelloedd mewn sawl ffordd, bydd angen i'r gwasanaeth addasu ein model cyflwyno traddodiadol a gwella cyfuno ein gwasanaethau corfforol a digidol.

- Byddwn yn ymdrechu i hyrwyddo ein gwasanaethau ar-lein yn ein hadeiladau a chodi ymwybyddiaeth ein haelodau o'r ystod gyflawn o adnoddau sydd ar gael ar-lein. Mae gwasanaethau ar-lein yn cynnig llwybr mynediad posibl i bobl nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth, felly byddwn yn gwella ein gweithgarwch marchnata ar gyfer y gwasanaethau hyn, yn ogystal â thargedu ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn pwysleisio'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig yn fwy effeithiol.

Mae cynnig e-lyfrau i'w benthyca mewn llyfrgell gyhoeddus yn y DU yn cael ei gyfyngu gan reolaethau'r cyhoeddwyr ar hyn o bryd, a all effeithio ar leihau'r galw. Gan y disgwylir i'r sefyllfa wella dros y blynyddoedd nesaf, bydd angen i'r llyfrgell sicrhau ei fod mewn safle i ddosrannu adnoddau priodol i e-gynnwys, er mwyn sicrhau y gallwn ateb y galw cynyddol. Ar hyn o bryd, mae'r gwariant ar fenthyca e-lyfrau a llyfrau sain yn cyfrif am 2.65% o gyfanswm ein gwariant deunyddiau, ac mae'r gwasanaeth yn rhagweld y bydd angen i hyn gynyddu i leiafswm o 5%, a hyd at 10%, o bosibl, erbyn 2020 os ydym eisiau parhau i gynnig benthyca sy'n bodloni anghenion cyfnewidiol y cwsmeriaid.

- Byddwn yn cydweithio ag awdurdodau eraill er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithiol.

Nod Strategol 3:

Cefnogi iechyd a lles ein cymunedau

Hyrwyddo Iechyd a lles

Mae ein llyfrgelloedd yn helpu trigolion Casnewydd i gymryd camau cadarnhaol er mwyn rheoli eu hiechyd a lles eu hunain trwy ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau cyngor mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu trwy gynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru, ac mae ganddo gasgliadau arbenigol ar gyfer gofalwyr a rhieni.

- Byddwn yn cynorthwyo'r cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru i Bobl Ifanc pan fydd yn lansio, a datblygu casgliadau ychwanegol wedi'u curadu, gan ddechrau gyda chasgliad sy'n cynorthwyo'r fenter gyfeillgar i ddementia yng Nghasnewydd.

Llyfrgelloedd fel mannau cymunedol

Mae llyfrgelloedd yn fannau croesawgar a diogel yng nghalon ein cymunedau, sy'n darparu amgylchedd lle mae croeso i bobl gyfarfod a chymdeithasu, wrth ddarganfod ac archwilio'r adnoddau yn ein casgliadau.

Mae llyfrgelloedd yn cynnig lle cyfeillgar i bobl hŷn gymdeithasu, er mwyn lleihau effeithiau unigrwydd ac arwahanrwydd. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o bwysigrwydd benthyca llyfrau yn rheolaidd i bobl hŷn, a'r rhyngweithio cymdeithasol y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu. Bydd unigrwydd yn broblem a fydd yn tyfu wrth i'r boblogaeth heneiddio dros y ddegawd ddiwethaf. Bydd angen i gynghorau ddatblygu strategaethau er mwyn rheoli'r broblem, ac mae llyfrgelloedd mewn sefyllfa unigryw i gyfrannu at yr her hon.

- Byddwn yn datblygu ein darpariaeth â defnyddwyr hŷn mewn golwg, ac yn rhoi sylw penodol i ddatblygu rhyngweithio cymdeithasol â'r grŵp hwn o ddefnyddwyr.
- Byddwn yn gweithio i annog mwy o gyfranogiad mewn mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ein holl lyfrgelloedd.
- Byddwn yn gweithio â'n cymunedau er mwyn cynnal gweithgareddau cymdeithasol fel grwpiau Gwau a Chlonc a chynyddu nifer y grwpiau 'Darllen ar y Cyd'.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu a chynnig cyfleoedd creadigol a chyfleoedd dysgu newydd trwy ein clybiau stori, clybiau codio, a pharhau i gefnogi Sgwadiau Sgwennu a gweithgareddau tebyg.

Nod Strategol 4:

Darparu mynediad at wybodaeth

Llyfrgelloedd fel darparwyr gwybodaeth y gallwch ymddiried ynddynt

Mae gwybodaeth ar-lein rhad ac am ddim a hawdd mynd ato wedi, yn groes i'r graen, gwneud rôl llyfrgelloedd fel darparwyr gwybodaeth y gallwch ymddiried ynddynt yn bwysicach nag erioed, yn hytrach na sefydliadau hen ffasiwn. Hefyd, mae gan lyfrgelloedd rôl fwyfwy pwysig wrth wneud y deunydd yn haws mynd ato a chynorthwyo llythrennedd gwybodaeth yn ein cymunedau.

- Byddwn yn parhau i ddarparu mynediad at ffynonellau gwybodaeth y gallwch ymddiried ynddynt trwy ddal casgliadau llyfrau ffeithiol yn ein holl safleoedd.
- Byddwn yn adolygu ein stoc yn flynyddol er mwyn sicrhau bod y casgliadau mewn canghennau unigol yn bodloni gofynion y gymuned ac yn defnyddio casgliadau wedi'u curadu mewn ffordd fwy effeithiol er mwyn rhoi sylw i stoc benodol.
- Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnig dosbarthiadau a gweithgareddau llythrennedd gwybodaeth yn rheolaidd ym mhob un o'n llyfrgelloedd, er mwyn sicrhau bod trigolion Casnewydd yn hyderus wrth ddefnyddio ac asesu gwybodaeth, yn enwedig dros y we.

Casgliad astudiaethau lleol

Mae'r casgliad Astudiaethau Lleol yn y Llyfrgell Ganolog yn cynnwys dros 50,000 o eitemau print, cofnodion archif, mapiau, ffotograffau a phapurau newydd yn ymwneud â hanes, daearyddiaeth a llenyddiaeth Casnewydd a'r Sir Fynwy hanesyddol. Mae'r casgliad yn cynnwys sawl eitem o bwysigrwydd cenedlaethol, fel cofnodion treial y Siartwyr a llythyron Delaney. Ar hyn o bryd, canran fach iawn o ddeunydd y casgliad sydd wedi cael ei ddigideiddio a'i roi ar-lein. Yn yr un modd, mae cofnodion catalog ar gyfer llai na 30% o'r casgliad ar gael ar ein catalog cyhoeddus ar-lein.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, byddwn yn:-

- Defnyddio gwirfoddolwyr i gynorthwyo gwaith staff y llyfrgell er mwyn cynyddu nifer y deunydd astudiaethau lleol wedi'i ddigideiddio sydd ar gael i ddefnyddwyr;
- Amlygu eitemau i'w blaenoriaethu o ran digideiddio, a fydd yn gwneud y casgliad unigryw hwn ar gael yn ehangach, a fydd yn gwella mynediad trigolion Casnewydd at yr adnoddau hanfodol ar gyfer deall treftadaeth y ddinas.

Nod Strategol 5:

Hyrwyddo a hwyluso dysgu a helpu trigolion i gyflawni eu potensial

Hyfforddi a datblygu staff a gwirfoddolwyr

Rydym yn rhagweld y bydd rhagor o alw am gymorth digidol gan ein cwsmeriaid, felly mae'n hanfodol fod y gwasanaeth llyfrgelloedd yn cynorthwyo gwaith ein staff trwy gyflwyno rhaglen hyfforddiant briodol, yn seiliedig ar anghenion cyfnewidiol y cwsmeriaid. Lle bo'n bosibl, bydd y gwasanaeth yn ceisio cydweithio â gwasanaethau llyfrgelloedd eraill a Llywodraeth Cymru er mwyn cyflwyno hyfforddiant mewn ffordd mor effeithiol â phosibl.

- Byddwn yn sicrhau bod pob gwirfoddolwr yn cael hyfforddiant a chymorth digonol er mwyn cyflawni eu rôl wrth i ni ddatblygu ein defnydd o wirfoddolwyr.
- Byddwn yn gweithio â phartneriaid, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, er mwyn cynnig lleoliadau gwaith priodol a chyfleoedd gwirfoddoli yn ein llyfrgelloedd a helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial.

Cyfleoedd dysgu yn ein llyfrgelloedd

- Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ein lleoliadau sy'n cynorthwyo cyfleoedd dysgu i drigolion Casnewydd.
- Rydym yn cynnig digwyddiadau hwyliog a hygyrch i blant oedran ysgol, gan ganolbwyntio ar Sialens Ddarllen yr Haf flynyddol yn ystod y gwyliau haf.
- Yn ystod tymor yr ysgol, mae clybiau stori'n cael eu cynnal yn 6 o'n llyfrgelloedd, sy'n cynnig amgylchedd anffurfiol a hwyliog er mwyn cyflwyno darllen i blant cyn ysgol.
- Byddwn yn parhau i gefnogi'r mentrau hyn, gan ganolbwyntio yn benodol ar sut gallwn gynorthwyo rhieni i annog eu plant i ddarllen. Byddwn yn datblygu clybiau codio yn y Llyfrgell Ganolog a'r tair prif lyfrgell.

Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant

Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn ymrwymo i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Byddwn yn sicrhau bod gennym nifer briodol o ddeunyddiau Cymraeg eu hiaith yn ein holl lyfrgelloedd fel y diffinnir yn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Trwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, byddwn yn cyflwyno rhaglen o weithgareddau yn ein llyfrgelloedd er mwyn helpu trigolion Casnewydd i gymryd eu camau cyntaf at ddysgu Cymraeg mewn amgylchedd anffurfiol.

Nod Strategol 6:

Gwella'r gwasanaeth a'i effeithlonrwydd

Byddwn yn parhau i herio ein hunain i weithredu mewn ffordd mor effeithlon â phosibl, trwy gynnal y lefelau uchaf posibl o wasanaeth cwsmeriaid. Mae gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd enw da am gyflwyno gwasanaeth effeithlon gyda chyllideb sy'n is na chyfartaledd y DU ar gyfer gwariant fesul pen.

Byddwn yn defnyddio technoleg i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth, yn enwedig yn ymwneud â defnyddio mwy o dechnoleg adnabod amledd radio er mwyn cynorthwyo'r broses hunanwasanaethu i gwsmeriaid, a symleiddio ein proses gaffael llyfrau.

Pwyntiau gwasanaeth

Yn dilyn adolygiad y gwasanaeth llyfrgelloedd yn 2014/15, rydym yn gweithredu mewn 9 pwynt gwasanaeth ar hyn o bryd, fel llyfrgelloedd ar eu pen eu hunain neu fel rhan o leoliad aml-ddefnydd. Dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae'r gwasanaeth wedi ceisio creu cymaint o gyfleoedd â phosibl, er mwyn gweithredu o leoliadau aml-ddefnydd lle bo'n bosibl, sy'n ein galluogi i weithredu mor effeithlon â phosibl, ond sydd hefyd yn rhoi cyfle i ni ddatblygu gwasanaethau llyfrgelloedd ledled y ddinas. Mae'r dull hwn wedi arwain at agor Canolfan Ddysgu a Llyfrgell Gymunedol St Julian yn 2007, ail-leoli llyfrgell Pillgwenlli yn 2008; agor llyfrgell newydd yn Nhredegar yn 2010 ac ail-leoli'r llyfrgell i Neuadd y Dref, Caerllion yn 2015.

Byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd i gyd-leoli gwasanaethau llyfrgelloedd lle bo'n bosibl, a lle gellir dangos bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyflwyno gwasanaethau.

Byddwn yn gweithio gyda'r cynllun Adfywio Cymunedol er mwyn profi pa mor ymarferol yw creu pwyntiau gwasanaeth cymunedol wedi'u cyd-leoli mewn lleoliadau strategol.

Cydweithio

Rydym yn gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill, gan gynnwys Adrannau Cyngor Dinas Casnewydd, awdurdodau llyfrgelloedd cyfagos a Llywodraeth Cymru er mwyn creu cymaint o gyfleoedd â phosibl ar gyfer cyflwyno gwasanaethau mewn ffordd effeithiol. Mae Consortiwm Prynu Llyfrau Cymru Gyfan wedi dod ag arbedion sylweddol i'r holl awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru, ac mae ein cyfranogiad mewn cynlluniau e-fenthyca fel cylchgronau Zinio a Borrowbox mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill wedi sicrhau bod y deunyddiau hyn ar gael i'n trigolion. Mae cynllun benthyca aml-lyfrgell Books4U, sy'n gweithredu ar draws de Cymru, yn galluogi aelodau'r llyfrgelloedd i fenthyg teitlau gan awdurdodau eraill a phrifysgolion yn rhad ac am ddim.

- Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gydweithio, gyda ffocws cychwynnol ar sut gallwn weithio gyda phartneriaid er mwyn hyfforddi staff a gwirfoddolwyr.

System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan

Bydd y System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan, sy'n cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig cyfleoedd i lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru weithio mewn ffordd fwy integredig gan gyflwyno arbedion effeithlonrwydd posibl trwy gaffael ar y cyd. Y dyddiad arfaethedig ar gyfer mabwysiadu'r system newydd yng Nghasnewydd yw 2018, ar hyn o bryd.

Cyfleoedd technolegol

Bydd defnyddio mwy o'r technolegau sy'n bodoli eisoes ac amlygu technoleg newydd priodol yn rhoi cyfle i wasanaethau llyfrgelloedd weithredu mewn ffyrdd gwahanol.

- Byddwn yn parhau i gyflwyno technoleg adnabod amledd radio a hunanwasanaethu yn ein llyfrgelloedd, gyda'r bwriad o osod y dechnoleg mewn un safle ym mhob blwyddyn hyd at 2020.

Mae datblygu technoleg 'mynediad agored' gan nifer o gwmnïau, sy'n galluogi defnyddwyr llyfrgell i ddefnyddio lleoliadau y tu allan i oriau gwaith, yn addo cyfle cyffrous posibl i wneud ein gwasanaeth yn haws ei ddefnyddio, ac am bris gweddol isel.

- Byddwn yn monitro datblygiad y dechnoleg hon, gyda'r bwriad o gynnal cyfnod prawf yn un o'n safleoedd cyn 2020.

Sut fydd llwyddiant yn edrych yn 2020?

- Bydd y gwasanaeth yn gallu dangos yn glir bod ei weithgarwch yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cyngor Dinas Casnewydd, Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a'r Cynigion Cyffredinol
- Bydd y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn bodloni holl ofynion craidd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru
- Bydd yn cael ei gydnabod fel gwasanaeth sy'n gweithredu mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, gan gynnig gwerth gwych am arian

Strategaeth Llyfrgelloedd 2017 – 2020: Cynllun Gweithredu

Nod Strategol Un: Annog darllen a hyrwyddo llythrennedd

Gweithredoedd	Canlyniadau	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur?	Amserlen
Datblygu a chyflwyno cynllun cynnydd darllen i'r blynyddoedd cynnar	Gwella mynediad at ddeunyddiau darllen priodol ac o ansawdd uchel i deuluoedd sydd â phlant ifanc	Nifer y teuluoedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun Ffigyrau dosbarthu stoc Dadansoddi adborth o arolygon defnyddwyr	2017 - 18
Gweithio'n agosach ag ysgolion i hyrwyddo Sialens Darllen yr Haf	Cynyddu cyfranogiad a nifer y plant sy'n cwblhau'r sialens	Mynd y tu hwnt i ganolrif Cymru ar gyfer nifer y plant sy'n ymuno â'r sialens ac yn ei gwblhau	2017 - 18
Parhau i gynorthwyo rhaglen 'Darllen Ymlaen' yn yr holl lyfrgelloedd ac mewn partneriaeth â sefydliadau eraill	Gwella llythrennedd a chodi ymwybyddiaeth o'r effaith gadarnhaol y mae darllen yn ei chael ar iechyd a lles	Nifer y bobl sy'n cwblhau'r cynllun Darllen Ymlaen yn mynd y tu hwnt i 150 erbyn 2018	Parhaus
Darparu sesiynau datblygu darllenwyr i oedolion a phlant ym mhob un o'n safleoedd	Trigolion Casnewydd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol yn eu cymunedau Y gwasanaeth yn bodloni anghenion y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru	Mwy o bobl yn mynd i'r digwyddiadau Dadansoddi adborth o arolygon defnyddwyr	2017 ymlaen

Nod Strategol 2: Darparu gwasanaethau digidol a chynorthwyo cynhwysiant digidol

Gweithredoedd	Canlyniadau	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur?	Amserlen
Defnyddio potensial Wi-Fi cymaint â phosibl yn ein llyfrgelloedd • Archwilio opsiynau ar gyfer benthyca llechi cyfrifiadurol yn y Llyfrgell Ganolog • Cyflwyno argraffu Wi-Fi yn y Llyfrgell Ganolog	Rhoi mwy o gyfle i drigolion Casnewydd ddefnyddio technoleg ddigidol	Mwy o bobl yn defnyddio Wi-Fi ar draws ein llyfrgelloedd	2017 - 18
Cyflwyno Adnabod Amledd Radio a hunanwasanaethu yn yr holl lyfrgelloedd annibynnol erbyn 2020	Profiad gwell i gwsmeriaid trwy gynnig dewis hunanwasanaethu iddynt Cyfle i wella'r ffordd y mae stoc yn cael ei reoli trwy ddefnyddio Adnabod Amledd Radio mewn ffordd fwy effeithiol	Mwy o fenthyciadau llyfrau yn y llyfrgelloedd	Betws 2018-19 Ringland 2019 - 20

Gweithredoedd	Canlyniadau	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur?	Amserlen
Hyfforddi staff i sicrhau ein bod yn gallu bodloni gofynion trigolion mewn amgylchedd technolegol sy'n newid yn gyflym	Mae gan holl staff y llyfrgelloedd ragor o wybodaeth a sgiliau, ac maent yn gallu rhoi cymorth yn fwy cyson	Yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant dechreuol a diweddariad bob blwyddyn	2017 ymlaen
Cynnal a datblygu partneriaethau gydag asiantaethau eraill er mwyn cynorthwyo cynhwysiant digidol	Cymorth llythrennedd digidol yn haws i'w gyrraedd yn ein llyfrgelloedd Y gwasanaeth llyfrgelloedd yn gallu bodloni'r galw a ddisgwylir ar gyfer cymorth Mae trigolion Casnewydd yn gallu defnyddio'r gwasanaethau digidol, a'r cyfleoedd y mae'r rhain yn eu cynnig, yn llawn.	Nifer y sesiynau cymorth a gynhelir a faint o bobl sy'n dod i'r sesiynau hynny Nifer yr unigolion a gynorthwywyd yn anffurfiol	Parhaus
Adolygu ac ail-ddylunio gwefan Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Ar-lein yng Nghasnewydd (LION)	Sicrhau bod porth LION yn adlewyrchu anghenion y gwasanaeth a'r defnyddwyr Gwella pa mor hawdd yw'r wefan i'w cyrraedd a'i defnyddio	Cynyddu nifer ymweliadau'r wefan Cynyddu'r ganran o aelodau'r llyfrgell sy'n defnyddio LION yn aml	2017 - 18
Gwella marchnata a chodi ymwybyddiaeth o'n hadnoddau digidol, yn enwedig e-lyfrau ac e-gylchgronau.	Codi ymwybyddiaeth trigolion Casnewydd o'r holl adnoddau digidol sydd ar gael trwy'r gwasanaeth, ac yn eu defnyddio.	Rhagor o fenthyciadau e-lyfrau Rhagor o fynediad i e-gylchgronau	2017 ymlaen

Nod Strategol 3: Cefnogi iechyd a lles ein cymunedau

Gweithredoedd	Canlyniadau	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur?	Amserlen
Parhau i gefnogi Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	Trigolion Casnewydd yn cael mynediad at wybodaeth berthnasol i gefnogi eu hiechyd a'u lles	Y teitlau ar y cynllun yn cael eu benthyg Nifer yr ymarferwyr iechyd sy'n cefnogi'r cynllun	Parhaus
Hyrwyddo a chynorthwyo'r cynllun presgripsiwn Llyfrau Llesol	Pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghasnewydd yn cael mynediad at wybodaeth berthnasol i gefnogi eu hiechyd a'u lles	Y teitlau ar y cynllun yn cael eu benthyg Nifer yr ymarferwyr iechyd sy'n cefnogi'r cynllun	2017 ymlaen

Gweithredoedd	Canlyniadau	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur?	Amserlen
Datblygu'r casgliadau Iechyd a Lles yn yr holl lyfrgelloedd	Trigolion Casnewydd yn gallu cael gwybodaeth i gefnogi eu hiechyd a'u lles yn hyderus	Y teitlau ar y cynllun yn cael eu benthyg	2017 -18
Datblygu rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol	Mae'r rhai sydd mewn perygl o gael eu harwahanu yn gymdeithasol yn cael cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cymdeithasol priodol yn eu cymunedau	Lleiafswm o un digwyddiad pob mis yn cael eu cynnal ym mhob safle Nifer y bobl sy'n mynd i'r digwyddiadau a'r gweithgareddau Dadansoddi adborth gan arolygon defnyddwyr	2017 onwards

Nod Strategol 4: Darparu mynediad at wybodaeth

Gweithredoedd	Canlyniadau	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur?	Amserlen
Cynnal rhaglen o ddosbarthiadau cymorth llythrennedd gwybodaeth ym mhob un o'n llyfrgelloedd	Trigolion Casnewydd yn derbyn cymorth i wneud penderfyniadau cytbwys wrth gael mynediad at wybodaeth.	Lleiafswm o 40 dosbarth yn cael eu cynnal yn flynyddol ar draws ein llyfrgelloedd Nifer o bobl sy'n dod i'r dosbarthiadau Dadansoddi adborth o arolygon defnyddwyr	Parhaus
Cyflwyno menter gwirfoddoli i helpu i ddigideiddio eitemau o'r casgliad Astudiaethau Lleol a'u gwneud ar gael ar-lein.	Gwneud yr adnoddau treftadaeth unigryw yn y casgliad yn fwy hygyrch Cyfleoedd i wirfoddolwyr gael mynediad at dechnoleg ddigidol a dysgu sgiliau newydd	Nifer yr ymweliadau â'r adnoddau wedi'u digideiddio Nifer yr eitemau sydd wedi cael eu digideiddio Nifer y gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar y prosiect	2017 - 18

Nod Strategol 5: Hyrwyddo a hwyluso dysgu a helpu trigolion i gyflawni eu potensial

Gweithredoedd	Canlyniadau	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur?	Amserlen
Cyflwyno clybiau cod yn ein llyfrgelloedd	Pobl ifanc yng Nghasnewydd yn cael cyfle i ddysgu sgiliau codio yn eu cymunedau.	Sefydlu 4 clwb yn 2016-17 Sefydlu 2 glwb arall yn 2017 – 18 Y clybiau sy'n bodoli eisoes yn parhau hyd nes 2020	2016 ymlaen

Gweithredoedd	Canlyniadau	Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur?	Amserlen
Parhau â'r rhaglenni cymorth llythrennedd digidol sy'n cael eu rhedeg gan y gwasanaeth llyfrgelloedd a'r sefydliadau partner • Sesiynau blasu • Dydd Gwener Digidol • Pobl sy'n chwilio am swyddi	Trigolion Casnewydd yn gallu defnyddio'r gwasanaethau digidol yn llawn, a'r cyfleoedd maent yn eu cynnig.	Y bobl sy'n dod i'r sesiynau Dadansoddi'r adborth o arolygon defnyddwyr	Parhaus
Gweithio gyda phartneriaid er mwyn darparu cyfleoedd dysgu yn ein llyfrgelloedd: • Dysgu Oedolion yn y Gymuned • Cymunedau yn Gyntaf • Y Ganolfan Byd Gwaith	Mae gan drigolion Casnewydd gyfleoedd dysgu yn eu cymunedau lleol	Nifer y dosbarthiadau a gynhelir yn y llyfrgelloedd Faint o bobl sy'n dod i'r dosbarthiadau Dadansoddi'r adborth o arolygon defnyddwyr	Parhaus
Cynnal y rhaglen stori a chân presennol yn y Gymraeg, sy'n cael ei rhedeg mewn partneriaeth â'r Mudiad Meithrin	Cynnig mynediad i deuluoedd i weithgareddau a digwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg.	Nifer y sesiynau a gynhelir Faint o bobl sy'n dod i'r sesiynau	Parhaus
Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen o sesiynau blasu Cymraeg yn ein safleoedd	Trigolion Casnewydd yn gallu cael mynediad at gyfleoedd dysgu yn eu cymunedau lleol	Nifer y dosbarthiadau a gynhelir yn y llyfrgelloedd Faint o bobl sy'n dod i'r dosbarthiadau Dadansoddi adborth gan arolygon defnyddwyr	
Cyflwyno fframwaith i roi cymorth i leoliadau profiad gwaith a gwirfoddoli	Trigolion Casnewydd yn gallu defnyddio lleoliad gwaith gwirfoddol i ddysgu sgiliau newydd ac fel carreg camu i ennill cyflogaeth	Nifer yr unigolion sy'n cael eu cefnogi trwy leoliadau gwaith Nifer y lleoliadau profiad gwaith	2017 - 18

Nod Strategol 6: Gwella'r gwasanaeth a'i effeithlonrwydd

Gweithredoedd	Canlyniadau	Sut bydd llwyddiant yn cael ei fesur?	Amserlen
Creu strategaeth newydd ar gyfer defnyddio gwirfoddolwyr yn y gwasanaeth llyfrgell.	Trigolion Casnewydd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol i gynorthwyo'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd. Trigolion Casnewydd yn gallu defnyddio lleoliad gwaith gwirfoddol er mwyn dysgu sgiliau newydd	Cwblhau'r strategaeth wirfoddoli	2017 - 18

Gweithredoedd	Canlyniadau	Sut bydd llwyddiant yn cael ei fesur?	Amserlen
Ymchwilio sut gellir gwella cyfranogiad gweithredol mewn cymunedau lleol wrth gynorthwyo cyflwyno gwasanaethau e.e. grwpiau 'ffrindiau'r llyfrgell'	Rhoi cyfle i drigolion Casnewydd fod â rôl weithredol wrth gefnogi a chyfarwyddo'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn eu cymunedau.	Cwblhau adolygiad o gyfranogiad cymunedol uwch Cyflwyno gweithredoedd a awgrymwyd yn yr adolygiad	2018 - 19
Diweddaru'r Proffiliau Cymunedol presennol a ddefnyddir wrth gynllunio gwasanaethau	Sicrhau bod y gwasanaethau'n ymateb i anghenion cymunedau lleol y llyfrgelloedd. Dosrannu adnoddau mewn ffordd fwy effeithlon ac wedi'i thargedu	Diweddaru'r proffiliau cymunedol dwywaith y flwyddyn	2018
Mabwysiadu System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru	Rhagor o gyfleoedd i weithio ar y cyd ag awdurdodau llyfrgelloedd ledled Cymru Profiad gwell i'r cwsmeriaid trwy ddefnyddio catalog Cymru gyfan Cyfle i arbed arian yn gysylltiedig â chynnal a chadw'r system a'i diweddaru	Y system rheoli llyfrgelloedd wedi ei gyflwyno'n llawn	2018 - 20